## Y Grant Caledi i Denantiaid – Cwestiynau Cyffredin y Landlordiaid a'r Asiantiaid

Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi lansio'r Grant Caledi i Denantiaid (THG) er mwyn cefnogi tenantiaid y sector preifat a gafodd drafferth i dalu'u rhent oherwydd COVID-19.

### Beth sydd angen i landlordiaid neu asiantiaid ei wneud?

- **Ffurflen Datganiad y Landlord neu'r Asiant**

  Pan fydd tenant yn cyflwyno cais am y Grant Caledi, bydd swyddogion o Adran Tai'r Awdurdod Lleol mewn cysylltiad â chi neu'ch asiant. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol wirio gwybodaeth ar ffurflen gais y tenant gan gynnwys gwerth y taliadau rhent misol a lefel yr ôl-ddyledion rhent a gronnwyd. Bydd hefyd yn gwirio a yw'r tenant yn byw yn yr eiddo a nodir ar y ffurflen gais ac yn dal cytundeb tenantiaeth ar ei gyfer. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn i chi neu'ch asiant lenwi Ffurflen Datganiad yn cadarnhau'r wybodaeth, a byddai'n ddefnyddiol, o ran bwrw ymlaen â'r cais, pe bai landlordiaid ac asiantiaid yn ymateb yn brydlon i'r ceisiadau hyn.

- **Manylion Banc y Landlord neu'r Asiant**

  Telir y grant, os caiff ei ddyfarnu, i bob landlord ar ran y tenant am yr ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus. Disgwylir i chi neu'ch asiant, fel y cyfryw, ddarparu manylion banc i alluogi'r Awdurdod Lleol i wneud y taliad hwn. Mae hyn wedi'i gynnwys fel rhan o Ffurflen Datganiad y Landlord neu'r Asiant.

- **Cofrestru'r Landlord gyda Rhentu Doeth Cymru (RSW)**

  Er mwyn gweithredu fel landlord yng Nghymru, rhaid i chi a'ch eiddo fod wedi'ch cofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru (RSW). Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwirio eich bod wedi'ch cofrestru gan ddefnyddio Cofrestr Gyhoeddus yr RSW fel rhan o'r broses ymgeisio. Os nad yw'ch eiddo wedi'i gofrestru, bydd yr Awdurdod Lleol yn riportio'ch eiddo i'r RSW am ymchwiliad pellach. Gellir dod o hyd i wybodaeth ar sut i gofrestru gyda'r RSW yn www.rentsmart.gov.wales

- **Cefnogaeth Barhaus i Denantiaid**

  Efallai y bydd angen cymorth pellach ar rai tenantiaid y tu allan i gynllun y Grant Caledi, ac o'r herwydd, gall yr Awdurdod Lleol gysylltu â chi'n uniongyrchol i drafod y gofynion hyn.